**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

20 Hydref 2025

Annwyl Huw,

**Gwaith dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref 2025 – Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog**

Diolch ichi unwaith eto am ddod i sesiwn Craffu Cyffredinol ar Waith Gweinidogion y Pwyllgor ar 1 Hydref. Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch gynnig ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch sawl mater, a nodir isod i'ch atgoffa, ac er eglurder:

- Manylion a dyddiadau'r cynllun cyfathrebu o ran sut y byddwch yn rhoi gwybod i ffermwyr am y newid yn y polisi ar TB gwartheg, i gyfyngu ar anifeiliaid sy'n 'adweithyddion amhendant (IR) safonol wedi'u datrys', cyn 1 Ionawr 2026.

- Nifer yr erlyniadau hyd yma ar gyfer y rhai sy'n euog o lygru afonydd (yng nghyd-destun y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru i ymdrin yn llym â'r rhai sy'n llygru afonydd).

- Manylion y strategaeth i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ar raddfa ddiwydiannol.

- Y dyddiad yr ydych yn disgwyl gallu cyhoeddi'r opsiynau sydd ar gael o ran cyflenwad dŵr hirdymor ar gyfer Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, ac unrhyw fanylion am waith y grŵp gorchwyl a gorffen.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd o ran cynigion Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno trefn drwyddedu i reoleiddio rhyddhau adar hela yng

Nghymru. Daw hyn yn sgil eich sylwadau eich bod yn aros am gyngor Gweinidogol ar hyn yn sesiwn graffu flaenorol y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r ymholiadau hyn erbyn 14 Tachwedd 2025.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg